

## **CAIS AM DRWYDDED GWEITHREDWYR CERBYDAU HURIO PREIFAT**

### **CANLLAWIAU AR GYFER TRWYDDED GWEITHREDWYR CERBYDAU HURIO PREIFAT**

1. Darllenwch yn ofalus amodau'r Drwydded Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat sy'n amgaeedig.
2. Gellir cyflwyno'r cais naill ai yn un o Ganolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn:
  - 41 Stryd y Cei, Rhydaman, SA18 3BS
  - Uned A, Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin, SA31 1GA
  - 36 Stryd Stepney, Llanelli, SA15 3TR

Neu drwy'r post:

Yr Adran Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

#### **Mae'n rhaid i'r cais gynnwys y Ffi Drwydded Briodol:**

**Trwydded 1 Flwyddyn £145.00 yna £138 wrth adnewyddu bob blwyddyn, neu**

**Trwydded 5 mlynedd £639.00 yna £631.00 wrth adnewyddu bob 5 mlynedd**

**(Dylid croesi sieciau a'u gwneud yn daladwy i 'Cyngor Sir Caerfyrddin')**

**Sylwch:** - Os nad ydych chi'n Yrrwr Trwyddedig ar hyn o bryd gyda'r Awdurdod hwn, bydd eich hawl i weithio yn y DU yn cael ei wirio fel rhan o'ch cais trwyddedu, gallai hyn gynnwys bod yr awdurdod trwyddedu yn gwirio eich statws mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref.

Felly, rhaid i chi ddarparu dogfen neu gyfuniad o ddogfennau y nodir eu bod yn addas ar gyfer y gwiriad hwn. Mae'r rhestr o ddogfennau wedi'i hatodi yn Atodiad A. Rhaid i chi ddod â'r ddogfen/dogfennau gwreiddiol, megis pasbort neu drwydded breswyllo fiometrïg fel y nodir yn Atodiad A, fel y gellir cynnal y gwiriad. Bydd y ddogfen/dogfennau'n cael eu copïo a'r copi'n cael ei gadw gan yr awdurdod trwyddedu. Bydd y ddogfen wreiddiol yn cael ei dychwelyd atoch.

Os oes cyfyngiadau ar yr amser y cewch weithio yn y DU, ni fydd eich trwydded yn cael ei rhoi am fwy o amser na'r cyfnod hwn. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y gwiriad yn cael ei ailadrodd bob tro y byddwch yn gwneud cais i adnewyddu neu ymestyn eich trwydded. Os ydych, yn ystod y cyfnod hwn, wedi'ch gwahardd rhag dal trwydded oherwydd nad ydych wedi cydymffurfio â chyfreithiau mewnfudo'r DU, bydd eich trwydded yn dod i ben a rhaid i chi ei dychwelyd i'r awdurdod trwyddedu, mae methu â gwneud hynny yn drosedd.

# CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

## Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II

### CAIS AM DRWYDDED GWEITHREDWYR CERBYDAU HURIO PREIFAT

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG

Dyddiad Cael y Cais:			
Enw Ymgynghorydd y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid		Lleoliad y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid	
Manylion Talu	Rhif Derbynneb:	Swm a Dalwyd £	Arian Parod / Siec / Cerdyn

**D.S.** Os bydd unrhyw berson yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid neu'n hepgor unrhyw fanylyn perthnasol wrth roi'r wybodaeth ganlynol, bydd, o dan Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II, yn euog o drosedd.

**Nodwch isod Hyd y Drwydded sydd ei hangen arnoch.**

**Trwydded 1 Flwyddyn £145.00 yna £138.00 wrth adnewyddu bob blwyddyn**

neu

**Trwydded 5 mlynedd £639.00 yna £631.00 wrth adnewyddu bob 5 mlynedd**

#### DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENAU

#### YMGEISYDD

a) Enw Llawn:

.....

b) Cyfeiriad Parhaol:.....

.....

c) Dyddiad Geni: ..... E-bost:.....

d) Rhif Ffôn (Cartref)..... Symudol.....

e) A gawsoch chi eich geni yn y DU?

**Do/Naddo**

f) Os 'Naddo', rhowch fanylion

.....

g) A fuoch chi erioed yn byw mewn gwlad y tu allan i'r D.U.

**Do/Naddo**

Os 'Do', rhowch fanylion

.....

h) Pa mor hir ydych chi wedi bod yn byw yn y DU.....

i) A oes gennych chi hawl i weithio yn y DU?

**Oes/Nac Oes**

### **Gwiriadau Treth**

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

**Dim ond os ydych yn gwneud cais ar neu ar ôl 4 Ebrill 2022 y mae'r adran hon yn gymwys, ac os ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol:**

- adnewyddu trwydded; neu'n
- gwneud cais am yr un math o drwydded â'r un oedd gennych yn flaenorol, a oedd yn peidio â bod yn ddilys lai na blwyddyn yn ôl; neu'n
- gwneud cais am yr un math o drwydded â'r un sydd gennych eisoes gydag awdurdod trwyddedu arall

<b>Côd Gwirio Treth</b>										
-------------------------	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

j) Enw'r Cwmni: .....

k) Nifer y cerbydau yr ydych yn Weithredwr ar eu cyfer neu'n bwriadu bod yn Weithredwr ar eu cyfer? .....

l) Cyfeiriad/au y bwriedir cynnal busnes ohono/ohonynt mewn cysylltiad â Cherbydau Hurio Preifat:

.....

.....

m) Ai chi yw unig berchennog y cerbyd **Ie/Na**

Os **Na**, rhowch enw(au) a chyfeiriad/au pob perchennog, neu berchennog rhannol sy'n ymwneud â chadw, defnyddio neu osod i hurio eich cerbyd.

Enw(au).....

Cyfeiriad(au).....

Dyddiad Geni..... Rhif

Ffôn.....

n) Ydych chi, eich Partner/Cwmni/Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd wedi gwneud cais am drwydded Gweithredwr o'r blaen? **Ydw / Nac ydw** (dileer fel y bo'n briodol)

Os ateboch **'Ydw'**

- i) Gan bwy wnaed y cais?.....
- ii) I ba Awdurdod.....
- iii) A roddwyd y drwydded? **Do / Naddo**

o) A ydych chi, eich partner neu unrhyw Gwmni yr ydych chi neu yr oeddech chi'n Gyfarwyddwr neu'n Ysgrifennydd ar ei gyfer wedi'ch cael yn euog o unrhyw drosedd? **Do / Naddo**

Neu

A oes erlyniad yn yr arfaeth mewn perthynas â chi, eich gyrrwr neu unrhyw berson arall sydd â diddordeb yn y Cwmni a gweithrediad y cerbyd?

**Oes / Nac oes**

Os **Oes**, rhowch fanylion isod

Dyddiad	Trosedd	Llys	Dedfryd neu Orchymyn y Llys

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddwyd gennyf yn y cais hwn yn gywir ym mhob agwedd. Os rhoddir trwydded, rwy'n datgan ymhellach y byddaf yn cydymffurfio â'r Amodau a'r Canllawiau sy'n rhestru darpariaethau statudol.

Sylwer bod ymgeisydd, trwy lofnodi'r ffurflen hon, yn caniatáu i'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys Statws Mewnfudo, manylion am unrhyw gollfarnau neu rybuddiadau, gael ei datgelu rhwng yr Heddlu, y Cyngor, y Swyddfa Gartref a Phwyllgor Trwyddedu yr Awdurdod, ac y gallai hyn olygu y bydd materion o'r fath yn cael eu trafod mewn cyfarfod sy'n agored i'r wasg ac i'r cyhoedd ac yn cael eu cofnodi yng nghofnodion ffurfiol y cyfarfod hwnnw.

Llofnodwyd.....

Dyddiad.....

**Mae'n ddyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac at y diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.**

**Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'r adran hon.**

## **Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir yn bwysig iawn o ran darparu ein gwasanaethau a chadw hyder y cyhoedd.

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson, y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' drwy'r hysbysiad preifatrwydd a'r un yw eu hystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. I weld yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Trwyddedu, ewch i:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiaidau-preifatrwydd/trwyddedu/>

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon

## **Gwiriad Treth (Ile bo'n berthnasol)**

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y [canllawiau](#) gan CThEM ar gofrestru fy ngwiriad treth.

Drwy ddarparu fy nghôd gwirio treth CThEM rwy'n cydsynio i'r Cyngor gadarnhau gyda CThEM fy mod wedi cynnal gwiriad treth.

Rwy'n deall na fyddaf yn cael trwydded os na fyddaf yn darparu côd gwirio treth.